


Diweddarwyd Ionawr 2020



# **Cronfa Ddatblygu Adfywio Rhydaman**

**Canllawiau i Ymgeiswyr**



## CYNNWYS

1. Rhagarweiniad
2. Cymhwysedd
3. Lefelau Cyllido
4. Cymorth Gwladwriaethol
5. Ardaloedd a Dargedir
6. Proses
7. Y Broses Gwneud Cais
8. Gwybodaeth Angenrheidiol
9. Sicrwydd/Adfachu/Ad-dalu
10. Allbynnau
11. Taliad
12. Ychwanegedd
13. Buddion Cymunedol - Effeithiau Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol
14. Caffael
15. Gofynion Cyhoeddusrwydd
16. Dyluniad a Goruchwyliaeth
17. Themâu Trawsbynciol
- 17.2 Yr Iaith Gymraeg
18. Y Rheolau Euraid
19. Manylion Cyswllt

## ATODIADAU

ATODIAD 1	Enghraifft o arfarniad o ddatblygiad
ATODIAD 2	Diffiniadau o allbynnau
ATODIAD 3	Prynu nwyddau, gwasanaethau, ymgynghoriaeth, ymchwil neu waith.
ATODIAD 4	Gofynion cyhoeddusrwydd

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol i godi neu adnewyddu adeiladau ar gyfer defnydd masnachol a'i brif nod yw creu capasiti ar gyfer cyflogaeth a bywiogi tref Rhydaman.

Mae'r rhaglen ar gael ar gyfer cynigion dan arweiniad datblygwyr a pherchen-feddianwyr sy'n dymuno adeiladu safleoedd newydd, neu ehangu neu adnewyddu safleoedd er mwyn creu capasiti ar gyfer swyddi ychwanegol.

Cafwyd cyllid ar gyfer y rhaglen hon drwy Raglen Gyfalaf Cyngor Sir Caerfyrddin. Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau **lle mae posibiladau y caiff swyddi eu creu ar unwaith** yn ogystal â budd gweladwy i Rhydaman o ran:-

- Nifer ac ansawdd y swyddi a grëir/y darperir ar eu cyfer
- arwynebedd y llawr sy'n cael ei greu
- nifer y BACHau y darperir ar eu cyfer
- sut y mae'r datblygiad yn hybu ac yn hyrwyddo datblygiad y Gymraeg a'i rôl yn yr economi
- sicrhau cefnogaeth am fentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro.

Nod y rhaglen yw cynorthwyo ymgeiswyr sydd angen cymorth ariannol i'w prosiectau fynd rhagddo, h.y. os na fyddai'r cyllid ar gael ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo.

Mae'r cyllid ar gael i lenwi'r bwlch ariannol rhwng y costau adeiladu a gwerth yr eiddo ar y farchnad ar ôl ei gwblhau. Diben y cymhelliant a gynigir yw ysgogi cyflenwad o safleoedd masnachol o ansawdd uchel yn Rhydaman drwy gynnig cyllid.

## 2. Cymhwysedd

Defnyddir y meini prawf a nodir yn y tabl isod i bennu cymhwysedd ar gyfer y rhaglen hon. Gofynnir i chi nodi mai canllawiau yn unig yw'r rhain ac y bydd cymhwysedd pob cais yn cael ei fesur yn unigol.

Defnydd Cymwys	Diwydiannol, masnachol, busnes cymunedol, siopau â thai uwchben
Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"><li>• Datblygwyr</li><li>• Buddsoddwyr</li><li>• Perchen-feddianwyr</li><li>• Perchenogion tir eraill</li></ul>
Budd yn y tir	Rhydd-ddaliad neu brydles tir (prydles heb fod yn llai na 15 mlynedd)
Gwariant cymwys	<ul style="list-style-type: none"><li>• Archwiliadau</li><li>• Dymchwel</li><li>• Costau adnewyddu safleoedd</li><li>• Costau adeiladu safleoedd</li><li>• Ffioedd proffesiynol (bernir bod y rhain yn gostau cymwys o ddyddiad derbyn cymeradwyaeth cam 1 a/neu ddyddiad derbyn cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, pa ddyddiad bynnag yw'r olaf. Gellir ystyried</li></ul>

	<p>talau ffioedd proffesiynol hyd at fwyafswm o 10% o'r costau adeiladu, cyn belled â bod y cynllun yn cael ei roi ar waith. Gellir ystyried talu ffioedd sy'n uwch na'r uchafswm hwn mewn amgylchiadau eithriadol, yn dibynnu ar y cais unigol) <b>I fod yn gymwys rhaid prynu gwasanaethau proffesiynol fel y nodwyd yn Atodiad 3.</b></p>
Elw'r Datblygwr	<p>Yn amod o'r cyllid a ddyfernir dan y rhaglen hon, mae'r broses arfarnu yn cynnwys elfen allweddol sy'n ymwneud ag asesu'r "enillion" neu'r "elw" a wneir gan yr ymgeiswyr. Mae'r arfarniad o'r datblygiad yn caniatáu lefel resymol o elw i ddatblygwyr ond dylai'r swm hwnnw fod yn gymesur ag amodau'r farchnad ar y pryd ac o'r herwydd bydd yn destun arfarniad grymus yn rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy.</p> <p>Gall yr arfarniad o'r datblygiad gynnwys lefel o elw i ddatblygwyr er mwyn cyfrifo bwch hyfywedd a chyfradd ymyrryd y grant (hyd at drothwy uchaf y cymorth gwladwriaethol). Fodd bynnag ni ellir hawlio elw i ddatblygwyr ac ni ellir ei gyfrif yn wariant cymwys i'w dalu.</p>
Gwariant Anghymwys	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Offer prosesu</li> <li>• Peirianwaith</li> <li>• Taliadau cyllid</li> <li>• Offer codi trwm</li> <li>• Egwyddor y Llygrwr sy'n Talu</li> <li>• Costau gosod ffitiadau'r tenant</li> </ul>

### 3. Lefelau Cyllido

Dylid cynnal arfarniad o'r datblygiad i benderfynu ar lefel y cyllid yr ymgeisir amdano, a dylai adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a ragwelir bydd costau cyfalaf y cynllun a'r hyn a ragwelir bydd gwerth yr eiddo ar y farchnad ar ôl ei gwblhau. Mae enghraifft o arfarniad nodweddiadol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Gall y canlynol effeithio ar lefel y cyllid a gynigir:-

- Isafswm y lefel y bernir sydd ei hangen i gyflawni'r prosiect yn unol â'r arfarniad o'r datblygiad.
- Gwerth y prosiect i economi Rhydaman ar sail nifer a math y swyddi y darperir ar eu cyfer, arwynebedd y llawr sy'n cael ei greu, nifer y BACHau y darperir ar eu cyfer a nifer y mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro. (gweler y diffiniadau yn Atodiad II)
- Lefelau'r Cymorth Gwladwriaethol a Ganiateir yn unol â'r tabl yn adran 4:-
- Yr Awdurdod fydd yn pennu uchafswm y cyllid a ddyfernir i bob prosiect;

#### 4. Cymorth Gwladwriaethol

##### Yn achos cynigion grant a wneir ar ôl Gorffennaf 2016

Tybir mai Cymorth Gwladwriaethol yw'r cyllid hwn ac o'r herwydd caiff ei ystyried yn adnawdd cyhoeddus i'w rhoi yn ôl y dewis i fentrau sy'n ymwneud â gweithgareddau economaidd a allai effeithio ar gystadleuaeth a masnach rhwng aelod-wladwriaethau'r UE. Mae lefel y trothwy yn cyfeirio at gyfanswm y cymhorthdal cyhoeddus a ganiateir (h.y. yn cynnwys unrhyw gyllid cyhoeddus arall neu gymorth awdurdod lleol) ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd (h.y. yn cynnwys ffitiadau ac offer prosesu).

Mae'r cynllun grant yn cael ei weithredu gyda chymorth gwladwriaethol o dan Gynllun Grant Datblygu Eiddo Llywodraeth Leol Cymru. Rhif Cyfeirnod Cymorth Gwladwriaethol SA.46422

O 1 Gorffennaf 2014, bydd y cyllid yn cael ei gyfyngu i'r trothwyon canlynol:-

Trothwy	Maint y Cwmni
45%	Menter fach h.y. <50 o weithwyr y mae'r trosiant blynyddol heb fod yn fwy na 10miliwn ewro.
35%	Menter ganolig h.y. <250 o weithwyr y mae'r trosiant blynyddol heb fod yn fwy na 50m ewro.
25%	Menter fawr – cwmnïau yn cyflogi mwy na 250 o weithwyr

#### 5. Ardaloedd a Dargedir

Mae'r rhaglen hon yn targedu'n benodol dref Rhydaman a'r ardal gyfagos (a ddiffinnir fel Ward Etholiadol Tref Rhydaman). Mae'r ardal hon yn un o'r chwe ardal allweddol yn Strategaeth Drawsnewid Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd prosiectau eithriadol nad ydynt yn rhan o Ward Etholiadol Tref Rhydaman a'r cyffiniau hefyd yn cael eu hystyried fesul achos. Os nad yw eich prosiect yn rhan o'r ardal uchod dylech gysylltu â'r Swyddog Prosiect i gael rhagor o gyngor cyn mynd ati i gyflwyno cais.

#### 6. Y Broses

Er osgoi unrhyw waith neu gost ddiangen ar ran yr ymgeisydd, mae'r awdurdod lleol yn gweithredu proses gymeradwyo dau gam:

<b>Cam 1</b> – Yr Asesiad Cychwynnol	Cymeradwyaeth mewn Egwyddor	Yn rhoi mynegiant cychwynnol o gymhwysedd a hyfywedd y prosiect a lefel y cyllid sydd ar gael.
<b>Cam 2</b> – Yr Asesiad Manwl	Awdurdod i Ymrwymo	Yn diffinio'r union gynigion o gyllid a'r telerau ac amodau cysylltiedig.

Ymdrinnir â phob cais fesul achos yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol a bydd ei benderfyniad yn derfynol. Ni ellir cynnig y cyllid ond yn yr achosion hynny lle mae'r awdurdod lleol yn fodlon na fyddai'r prosiect yn gallu mynd rhagddo heb y cyfryw gymorth.

Nid yw'r arian ar gael yn awtomatig. Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i bennu blaenoriaethau mewn perthynas â chyfanswm y gyllideb sydd ar gael yn y sir, er enghraifft gwerth yr arian, hyfywedd, allbynnau a grëir, ac ati, ac i osod telerau ac amodau fel y gwêl yn briodol.

Ni fydd gwariant gan ddatblygwyr i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau Cam 1 e.e. ffioedd cyfreithwyr, penseiri, ymgynghorwyr ac ati, yn cael ei ad-dalu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Fodd bynnag, bydd canran a gytunwyd (cyfradd ymyrryd y grant) o'r gwariant cymwys gan **ymgeiswyr llwyddiannus ar ôl cael cymeradwyaeth Cam 2** yn cael ei had-dalu yn y cam hawlio. Fodd bynnag, bernir bod ffioedd proffesiynol yn gostau cymwys ar ôl dyddiad derbyn cymeradwyaeth Cam 1 neu ar ôl derbyn cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Awdurdodir y taliad ar ôl derbyn dyfynbrisiau boddhaol. Bydd y rhain yn cael eu had-dalu hefyd ar ôl cwblhau'n ymarferol.

## 7. Y Broses Gwneud Cais

Bydd y weithdrefn hon yn cynnwys dau gam.

7.1 Mae'n rhaid cyflwyno'r canlynol gyda Cham 1 y cais: -

- Brasluniadau, map o leoliad y safle, cyfrifon y cwmni a'r arfarniad cychwynnol o'r prosiect ar gyfer Cam 1

7.2 Bydd y panel grantiau yna'n asesu ac yn ystyried yr holl geisiadau ac yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr a ydynt wedi bod yn llwyddiannus yn ystod Cam 1 ai peidio.

7.3 Os yw'r cais yn llwyddiannus, gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno cais manylach ar gyfer Cam 2

7.4 Bydd y panel gwneud penderfyniadau yn asesu ac yn ystyried y ceisiadau unigol yn ystod Cam 2.

7.5 Rhaid cwblhau'r gwaith yn ymarferol erbyn 28 Chwefror 2021.

## 8. Gwybodaeth Angenrheidiol

Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno'r wybodaeth ganlynol a rhaid iddo ddefnyddio ymgynghorwyr proffesiynol sy'n meddu ar y profiad priodol.

### Cam 1: Yr Aseiad Cychwynnol – Cymeradwyaeth mewn Egwyddor

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Cynllun lleoliad y safle
- Y cynllun arfaethedig/prif gynllun/lluniau
- Arfarniad cychwynnol o'r datblygiad (cost a gwerth) – Enghraifft yn Atodiad 1
- Cyfrifon y cwmni (y tair blynedd ddiwethaf)
- Polisi amgylcheddol / polisi dwyieithrwydd / polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Copïau o ddyfynbrisiau / tendrau am wasanaethau proffesiynol (os ydynt yn ofynnol i fod yn gymwys yn dilyn cymeradwyaeth Cam 1

Os yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod gofynion cam 1 wedi cael eu bodloni a bod y cynllun yn gymwys, yn hyfyw ac yn werth ei gefnogi, bydd yn estyn gwahoddiad i gyflwyno cam 2 o'r cais.

**Sylwer** - Bernir bod costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau proffesiynol e.e. penseiri, syrfewyr meintiau, aseswyr BREEAM ac ati yn rhai cymwys yn dilyn dyddiad derbyn cymeradwyaeth Cam 1 a/neu yn dilyn derbyn cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Cyngor Sir Caerfyrddin cyn cyflogi ymgynghorwyr. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn awdurdodi'r taliad ar ôl derbyn dyfynbrisiau neu dendrau boddhaol, pa un bynnag sy'n berthnasol (gweler Atodiad 3)

Er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn manteisio i'r eithaf ar eu costau cymwys, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn argymhell bod gwasanaethau proffesiynol yn cael eu caffael ym mhroses ymgeisio Cam 1 neu mor fuan â phosibl wedi hynny. Gall datblygwyr ond hawlio'r costau hyn os yw eu cais i Gam 2 yn cael ei gymeradwyo a bod y cynllun yn cael ei gyflawni.

### **Cam 2: Yr Aseiad Manwl – Awdurdod i Ymrwymo**

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Arfarniad diwygiedig o'r datblygiad
- Cynllun marchnata
- Rhagolygon y llif arian
- Caniatâd cynllunio llawn
- Lluniadau a manylebau manwl
- Copïau o ddyfynbrisiau / tendrau am wasanaethau proffesiynol (oni chawsant eu cyflwyno eisoes yn rhan o Gam 1) \*\*\* (gweler y nodyn uchod)
- Copïau o dendrau'r contractwyr\*\*\*
- Adroddiad tendr
- Prisiad (i'w gynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin)
- Tystiolaeth bod arian cyfatebol ar gael
- Tystiolaeth o berchenogaeth tir/eiddo (rhydd-ddaliad/prydles 15 mlynedd o leiaf ynghyd â chaniatâd y landlord, ar ffurf gweithredoedd eiddo, dogfen y gofrestrfa dir neu gytundeb prydles). Gofynnir i chi nodi y bydd yn rhaid gwneud pridiant cyfreithiol (gyda'r gofrestrfa dir) mewn perthynas â'r eiddo os bydd eich prosiect yn llwyddiannus.
- Copïau o unrhyw gytundebau cyn gosod/cyn gwerthu

\*\*\* Rhaid caffael contractwyr a gwasanaethau proffesiynol gan ddefnyddio proses sy'n dderbyniol gan y Cyngor Sir (gweler Atodiad 3)

### **Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth.**

Os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn fodlon ar ofynion cam 2 ac yn bwriadu cefnogi'r cynllun yna bydd awdurdod i ymrwymo yn cael ei anfon at yr ymgeisydd. Rhaid llofnodi'r ddogfen hon a'i dychwelyd i'r Awdurdod Lleol cyn pen 14 diwrnod. Wedi gwneud hyn, a bwrw bod yr holl ganiatâd sydd ei angen wedi'i dderbyn, gall yr ymgeisydd ddechrau ar y gwaith. Rhaid nodi fodd bynnag y bydd yr ymgeisydd yn gwneud hyn ar ei gyfrifoldeb ei hun gan na fydd yr holl delerau ac amodau wedi cael eu cwblhau a'u llofnodi ar yr adeg hon.

**Ni ddylai unrhyw brosiect ddechrau na rhoi'r prif gontract nes y bydd "Awdurdod i Ymrwymo" wedi cael ei gyhoeddi a'i dderbyn gan yr ymgeisydd. Os bydd prosiect yn**

**dechrau neu'r prif gontract yn cael ei roi cyn cwblhau'r cam hwn bydd yr Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad nad oes angen cymorth ariannol ar y prosiect.**

Nodwch y bydd yn rhaid ichi gydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Rheoliadau Adeiladu, Dylunio a Rheoli.

## **9. Sicrwydd / Adfachu / Ad-dalu**

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynnu tâl ar yr eiddo i ddiogelu rhag yr amgylchiadau canlynol (Mae'r dyddiadau'n ymwneud â "Dyddiad y Dystysgrif Cwblhau Ymarferol"):

Newid Diben y Prosiect o fewn 5 mlynedd i dderbyn y taliad grant terfynol	Ad-daliad llawn
Twyll / Gwybodaeth Gamarweiniol	Ad-daliad llawn
Torri amodau	Ad-daliad llawn
Gwerthu o fewn 5 mlynedd	Adfachiad cyfrannol - bydd yr adfachiad yn seiliedig ar werthiant sy'n fwy na'r prisiad wrth gymeradwyo'r grant
Methiant i gyflawni targedau / allbynnau	Adfachiad cyfrannol

Bydd yr adfachiad yn gymesur â lefel y grant a ddyfarnwyd ar y swm ar ben y gwerth a gyfrifwyd at ddibenion grant a chaiff ei gyfrifo ar y cynnydd yng ngwerth yr eiddo.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hefyd yswirio'r eiddo am gyfnod o 5 mlynedd ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau y gellir ei ailadeiladu os digwydd unrhyw ddifrod a bod budd y Cyngor Sir yn yr eiddo yn cael ei restru ar y polisi.

## **10. Allbynnau**

Gofynnir i chi nodi y bydd yr allbynnau yn cael eu hystyried wrth asesu eich cais ac y bydd disgwyl i chi eu gwirio ar ôl cwblhau'r cynllun a chyn y bydd yr arian yn cael ei dalu. Byddwn yn ystyried yr allbynnau canlynol:-

- Swyddi y darperir ar eu cyfer
- Buddsoddiad gan y sector preifat
- Arwynebedd y llawr sy'n cael ei greu / ei wella
- BACHau y darperir ar eu cyfer

Rhaid cadw cofnodion am 10 mlynedd o ddyddiad y dyfarniad cymorth olaf dan y cynllun. Rhaid i'r cofnodion fod yn ddigon manwl i gadarnhau bod amodau Cynllun Cymorth Cyflogaeth a Chymorth Buddsoddiad Cyfalaf Llywodraeth Leol Cymru wedi'u bodloni.

## **11. Taliad**

Gellir talu ar sail taliad interim a hawliad terfynol, neu ar ôl cwblhau'r gwaith yn ymarferol, a bydd hyn yn cael ei gyuno fesul achos a bydd yn amodol ar gyflwyno'r dogfennau canlynol:-



- Ffurflen hawlio / holiadur allbynnau yn cynnwys y llofnod gwreiddiol
- Y dystysgrif prisiad wreiddiol
- Y dystysgrif cwblhau ymarferol wreiddiol
- Anfonebau gwreiddiol
- Cyfriflenni banc gwreiddiol yn dangos prawf o'r taliadau a wnaed
- Ymweliad safle boddhaol gan syrfêwr meintiau a gyflogwyd gan y Cyngor Sir
- Tystysgrif cwblhau rheoliadau adeiladu

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw copïau ardystiedig o'r dogfennau gwreiddiol.

Os yw'r gwariant ar waith cymwys yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y llythyr cynnig, bydd y cymorth ariannol yn cael ei leihau ar sail pro rata.

## 12. Ychwanegedd

Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod angen cymorth CDE i fynd â'r prosiect rhagddo ac na fyddai'r datblygiadau yn digwydd heb yr arian hwnnw. Yn benodol rhaid i ymgeiswyr ddangos sut y bydd cymorth ariannol:

- yn arwain at ganlyniadau ychwanegol a chysylltiadau clir rhyngddo â'r arian ychwanegol
- yn cynyddu gallu'r ymgeisydd i gyflenwi ei wasanaethau
- yn cynyddu graddfa'r prosiect
- yn gwella ansawdd y prosiect
- yn rhyddhau adnoddau i ganiatáu i brosiectau eraill fynd rhagddynt.

Hefyd, rhaid i bob cais amlinellu'r buddiannau ychwanegol sy'n debygol o ddod i Rydaman o ganlyniad i'r datblygiad a'r modd y bwriedir lleihau cymaint â phosib ar unrhyw effaith negyddol ar y farchnad bresennol i osod eiddo masnachol.

## 13. Buddion Cymunedol - Effeithiau Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol

Er mwyn sicrhau bod cynlluniau sy'n cael cymorth gan Gronfa Adfywio Rhydaman yn cael effaith gadarnhaol yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol, mae'r Bartneriaeth yn annog pob ymgeisydd llwyddiannus i ddefnyddio arferion gwaith sy'n darparu buddion cymunedol yng nghyswllt pob cynllun datblygu. Rydym wedi ymrwymo i hybu Datblygu Cynaliadwy, gan sicrhau bod y camau a gymerwn yn cyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol. Adeiladu cymunedau cryfach, lleihau allgáu cymdeithasol a thlodi a hybu datblygiad yr economi yw'r nod.

Lle bo modd, bydd yr awdurdod yn cefnogi ymgeiswyr llwyddiannus i ddarparu 'buddion cymunedol' a fydd yn cynnig budd tymor-hir i breswylwyr ac i fusnesau yn y gymuned ehangach. Gellir cyflawni hyn drwy:

- Hyfforddiant a chyflogaeth - e.e. ystyried cyfleoedd i recriwtio a hyfforddi pobl sydd heb fod yn weithgar yn economaidd yn y tymor hir, cynnig prentisiaethau/cyfleoedd hyfforddiant i bobl ifanc, ystyried datblygu sgiliau crefftwyr eich gweithlu presennol ac ati.

- Cynlluniau Cadwyn Gyflenwi - e.e. ymgysylltu â chyflenwyr, cyfleoedd yn ail haen y gadwyn gyflenwi, ac ati
- Gweithio gyda'r 3ydd sector a busnesau a ffatrioedd â chymorth lle bo'n berthnasol.
- Mentrau Cymunedol - e.e. diwrnodau gwirfoddoli, cymorth i grwpiau ieuenctid lleol a grwpiau cymunedol eraill, cystadlaethau chwaraeon ar raddfa fach, ac ati.
- Cyfrannu at Addysg - e.e. lleoliadau gwaith/ysgol, sgysiaid i blant am lwybrau gyrfa, ac ati

Bydd yr awdurdod hefyd yn annog ymgeiswyr i gydweithio gyda'u his-gontractwyr, fel eu bod hwythau'n cyfrannu at fuddion cymunedol y cynllun datblygu.

Byddwn yn trafod y materion hyn yn fanwl â chi ar ôl i chi dderbyn cymeradwyaeth Cam 1.

#### **14. Caffael**

Rhaid i'r holl wasanaethau a'r holl waith gael eu caffael drwy weithdrefn dendro gystadleuol gymeradwy fel y nodir yn Atodiad 3 – 'Prynu nwyddau, gwasanaethau, ymgynghoriaeth, ymchwil neu waith'. Rhaid i bob ymgeisydd llynu wrth y weithdrefn hon.

#### **15. Gofynion Cyhoeddusrwydd**

Rhaid trefnu cyhoeddusrwydd priodol i godi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau arian a dderbyniwyd. Os bydd prosiect yn llwyddo i gael cymorth ariannol dan y rhaglen hon, bydd y telerau ac amodau yn manylu'r mesurau cyhoeddusrwydd i'w dilyn gan yr ymgeisydd. Gweler Atodiad 4 - Gofynion Cyhoeddusrwydd.

#### **16. Dyluniad a Goruchwyliaeth**

Rhaid i dderbynwyr grantiau ddefnyddio swyddogion proffesiynol sy'n meddu ar y cymwysterau priodol (h.y. Syrfêwr Meintiau a Phensaer) i asesu tendrau, darparu lluniadau, goruchwyllo gwaith prosiect a darparu tystysgrifau ar gyfer gwaith sydd wedi'i gwblhau. Gellir cynnwys y gost hon yn y gwariant sy'n gymwys i gael cymorth grant, hyd at 10% o gyfanswm cost y prosiect, cyn belled â'i bod wedi cael ei nodi yn y ffurflen gais a bod cais wedi cael ei wneud am gytundeb ysgrifenedig penodol y Cyngor Sir cyn cysylltu â'r ymgynghorwyr a chyhyd â bod tystiolaeth fod y gwariant cyfalaf yn ddigonol i gyfiawnhau'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i'r ymgynghorydd proffesiynol feddu ar gymhwyster sy'n briodol i natur y gwaith a fwriedir.

**Mae ffioedd proffesiynol yn gost gymwys ar ôl dyddiad derbyn cymeradwyaeth Cam 1 a / neu ar ôl derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael awdurdod i ymrwymo.**

#### **17. Themâu Trawsbynciol**

##### **17.1 Yr Iaith Gymraeg**

Bydd angen i ymgeiswyr amlinellu'r modd y mae'r cynllun yn annog datblygu'r iaith Gymraeg. Dylai'r arwyddion yn yr adeilad fod yn ddwyieithog. Rhaid cyflwyno'r datganiad polisi yng Ngham 1.

## 18. Y Rheolau Euraid

- Pennir lefel y cyllid yn ôl disgrisiwn llwyr yr awdurdod lleol;
- Peidiwch ag ymrwymo i brosiect na'i gyhoeddi cyn cael cymeradwyaeth;
- Os ydych yn ansicr ynghylch rhywbeth - GOFYNNWCH.

## 19. Manylion Cyswllt:-

I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Chyngor Sir Caerfyrddin:

**Is-adran Datblygu Economaidd  
Cyngor Sir Gaerfyrddin  
County Hall  
Carmarthen  
SA31 1JP**

**Rhif Ffôn: 01267 242 429**

**[LMilward@sirgar.gov.uk](mailto:LMilward@sirgar.gov.uk)**



**Enghraifft o arfarniad o ddatblygiad**

(Mae copi Excel electronig o'r daenlen hon ar gael ar dderbyn cais).

Arweiniad hyblyg at eich defnydd chi yw hwn. Nid oes yn rhaid ichi ddarparu arfarniad o'r datblygiad ar y ffurf hon. Cewch adael celloedd gwag a/neu ychwanegu llinellau costau cymwys.

Dylech ychwanegu eich cyfradd costau ar sail y cyngor proffesiynol a gawsoch.

Rhowch ffigurau yn y blychau llwyd yn unig a byddant yn cael eu cyfrifo'n awtomatig.

Arfarniad Datblygu ar gyfer		Cyfraddau	Cyfansymiau eite	Is-gyfansyn	Cyfansym	Bwlch
<b>1 1. Gwerth Gorffenedig</b>						
1	1.1 Incwm Rhent	0 troedfedd sgw	£0.00			
		0 troedfedd sgw	£0.00			
		0 troedfedd sgw	£0.00			
1	Cyfanswm yr Incwm Rhent		£0.00	Y flwyddyn		
1	Cyfradd cynnyrch guchwynnol (Gwerth ar y Farchnad)	9.0	11.11	£0.00		
<b>1 1.4 Gwerth Gorffenedig</b>						£0.00
<b>2. Costau Datblygu</b>						
2	Caffael Safle Prynu Tir		£0.00	£0.00		
2	Costau rhagarweiniol Costiau Cyfreithiol (ar gyfer prynnu tir) Treth stamp Ffioedd Archwiliad Safle Ffioedd Cynllinio/Awdurdod Lleol Rheoliadau adeiladau Arall (rhowch fanylion) CYFANSWM Y SAFLE		£0.00 £0.00 £0.00 £0.00 £0.00 £0.00			£0.00
2	Adeiladau Paratoi'r safle/Dymchwel Adeiladau Ffyrdd/Isadeiledd Caledu tir/sylfaen CYFANSWM ADEILADU		£0.00 £0.00 £0.00 £0.00			£0.00
2	Ffioedd Proffesiynol Syrfeiwyr Meintiau Pensaer Aseswr BEEAM Peiriannydd Strwythol a/neu Fecanyddol a Thryd Ffioedd Proffesiynol Eraill (rhowch fanylion) CYFANSWM GWIRIONEDDOL		£0.00 £0.00 £0.00 £0.00 £0.00 £0.00			£0.00
	Cyfanswm cyn costiau eraill		£0.00	£0.00		
3	Costiau eraill Elw Datblygwr (10%0 CYFANSWM Y COSTAU ERAILL		£0.00	£0.00		
<b>3 Cost Datblygu</b>						£0.00
<b>Elw/Colled Datblygu</b>						£0.00

Hwn yw'r Lluosydd Gros, a gyfrifir drwy rannu'r gyfradd cynnyrch guchwynnol \$ 100. Mae cyfraddau cynnyrch guchwynnol yn amrywio yn ôl y lleoliad, amodau'r farchnad neu a oes cytundeb rhagocod ar waith. Rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor gan brisiwr i bennu cyfradd cynnyrch a chyfradd rhent

Cyfrifir y gwerth ar y farchnad drwy luosi'r incwm rhent blynyddol \$'r Lluosydd Rhent Gros

Yr uchafswm y gellir ei gynnwys ar gyfer prynu tir yw 10% o gyfanswm y costau adeiladu a'r ffioedd proffesiynol, neu gost wirioneddol y tir, pa un bynnag sydd leiaf. Mae'n ofynnol bod y tir wedi'i brynu ar ôl Mehefin 2003 i gael ei ystyried yn gymwys.

Ad-delir ffioedd proffesiynol ar sail y costau gwirioneddol, hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm y costau adeiladu (ac eithrio costau rhagarweiniol a phrynu tir)

Ystyrir bod elw datblygwr yn gost gymwys dim ond at ddibenion cyfrif y bwlch hyfywedd s'r gyfradd ymyrryd grant. Ni ellir ei ad-dalu fel cost. Fel rheol, 10% o gyfanswm y costau datblygu fydd hyn ond

Y bwlch (neu'r elw) = costau datblygu llai'r gwerth ar y farchnad.

Cronfa Ddatblygu Adfywio RhydamanAtodiad 2Diffiniadau o Allbynnau Hydref 2016**SWYDDI Y DARPERIR AR EU CYFER**

**Swyddi y Darperir ar eu Cyfer - diffiniad:** Nifer y swyddi y darperir ar eu cyfer yn y safleoedd a'r eiddo.

**Swyddi y darperir ar eu cyfer:** Uchafswm nifer y swyddi y mae potensial iddynt gael eu lleoli ar unrhyw un adeg. Nid y nifer y darperir ar eu cyfer yn ystod oes yr eiddo. Os yw'r prosiect yn ymwneud ag adnewyddu eiddo dylai'r nifer hwn gyfeirio at nifer y swyddi ychwanegol y darperir ar eu cyfer (h.y. dylid tynnu nifer y swyddi a ddarparwyd cyn yr adnewyddu o'r nifer a roddwyd i Lywodraeth Cymru; os bydd hynny'n rhoi ffigur negyddol dylai'r prosiect ailystyried ai dyma'r dangosydd canlyniad mwyaf priodol iddynt hwy).

**Tystysgrif:** Tystysgrif cwblhau ymarferol a lluniadau yn dangos yr arwynebedd llawr net sydd ar gael yn ofod cyflogaeth. Bydd nifer y swyddi a ddarperir ar yr arwynebedd llawr hwn yn amrywio yn ôl math y defnydd terfynol a wneir o'r adeilad a chaiff ei gyfrif yn unol â'r tabl isod:

Dosbarth Defnydd	Is-gategori	Is-sector	Dwysedd (metr sgwâr)	Nodiadau
<b>Swyddfeydd B1a</b>	Swyddfa Gyffredinol	Corfforaethol	13	Arwynebedd Mewnol Net
Gwasanaethau Proffesiynol	12			Arwynebedd Mewnol Net
Y Sector Cyhoeddus	12			Arwynebedd Mewnol Net
TMT	11			Arwynebedd Mewnol Net
Cyllid ac Yswiriant	10			Arwynebedd Mewnol Net
Canolfannau Galwadau	8			Arwynebedd Mewnol Net
<b>B1b</b>	Gofod Ymchwil a Datblygu	40-60		Bydd dwysedd is o ran Arwynebedd Mewnol Net yn cael ei gyflawni drwy ddarparu mwy o leoedd a rennir neu leoedd cymunedol
<b>B1c</b>	Diwydiannol Ysgafn	47		Arwynebedd Mewnol Net
<b>B2</b>	Diwydiannol a Gweithgynhyrchu	36		Arwynebedd Mewnol Gros
<b>B8</b>	Storio a Dosbarthu	Canolfan Dosbarthu Genedlaethol	95	Arwynebedd Allanol Gros
Canolfan Dosbarthu Ranbarthol	77			Arwynebedd Allanol Gros

Canolfan Dosbarthu'r 'Filltir Olaf'		70		Arwynebedd Allanol Gros	
<b>Dosbarth B Cymysg</b>	Gweithfan i Fusnesau Bach	Uned Cychwyn Busnes	30-60		B1a, B1b - bydd y dwysedd mewn perthynas â'r cydbwysedd rhwng y lleoedd, wrth i gyfran B1a gynyddu, bydd y dwysedd cyflogaeth yn cynyddu hefyd.
Lleoedd i Wneuthurwyr		15-40		B1c, B2, B8 - Y gwahaniaeth rhwng dwysedd a defnydd 'lleoedd a gynllunnir' oherwydd y model aelodaeth	
Stiwdio		20-40		B1c, B8	
Cydweithio		10-15		B1a - Y gwahaniaeth rhwng dwysedd a defnydd 'lleoedd a gynllunnir' oherwydd y model aelodaeth	
Gweithfan a Reolir		12-47		B1a, b, c	
<b>B8 / Sui Generis</b>		Canolfannau Data	Cyfanwerthu	200-950	
Safle Cyfanwerthu Tywyll			440-1,400		
Cyfleuster Cydleoli			180-540		
<b>A1</b>	Manwerthu	Y Stryd Fawr	15-20		Arwynebedd Mewnol Net
Siop Fwyd		15-20		Arwynebedd Mewnol Net	
Warws Manwerthu		90		Arwynebedd Mewnol Net	
<b>A2</b>	Gwasanaethau Proffesiynol a Chyllid	16		Arwynebedd Mewnol Net	
<b>A3</b>	Bwytai a Chaffis	15-20		Arwynebedd Mewnol Net	
<b>C1</b>	Gwestai	Gwasanaeth/Cylli deb Cyfyngedig	1 fesul 5 gwely		CALI fesul gwely
Canol y Raddfa		1 fesul 3 gwely		CALI fesul gwely	
Uwchraddol		1 fesul 2 wely		CALI fesul gwely	
Moeth		1 fesul 1 gwely		CALI fesul gwely	
<b>D2</b>	Canolfannau Ffitrwydd	Cyllideb	100		Arwynebedd Mewnol Gros
Canol y Farchnad		65		Arwynebedd Mewnol Gros - mae'r ddau fath yn tueddu i greu rhwng 40 a 50 o swyddi fesul campfa	
Teulu					
Sinema		200		Arwynebedd Mewnol Gros	
Atyniadau Ymwelwyr a Diwylliannol		30-300		Mae amrywiaeth y sector diwylliannol yn golygu bod yna ystod eang iawn	

**Manylion o ran Categori / Meini prawf  
Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin**

---

**ARWYNEBEDD Y LLAWR SY’N CAEL EI GREU / EI WELLA**

**Arwynebedd y llawr sy’n cael ei greu / ei wella - diffiniad** Nifer y metrau sgwâr o le adeiladu sy’n cael ei greu neu ei adnewyddu at ddefnydd busnes a/neu addysg. Nid yw hyn yn cynnwys ardal a ddefnyddir ar gyfer parcio ceir neu dirweddu allanol.

**Creu:** codi adeilad newydd.

**Adnewyddu:** adnewyddu adeilad sy’n bodoli.

**Tystiolaeth:** Gwaith – tystysgrif cwblhau ymarferol. Ardystiad Syrffêwr Meintiau o’r gwaith a wnaed e.e. gwasanaethau/cyfleustodau ac isadeiledd y safle, y sylfeini a osodwyd a’r muriau a’r toeau a godwyd.

**Manylion o ran Categori / Meini prawf**

**Diben yr eiddo** (Busnes – swyddfa, Busnes – gweithgynhyrchu, Busnes – dosbarthu)

**Awdurdod Unedol** Sir Gaerfyrddin

---

**BACHau Y DARPERIR AR EU CYFER**

**BACHau y darperir ar eu cyfer - diffiniad:** Nifer y BACHau y darperir ar eu cyfer ar y safle ac yn yr eiddo y cyfeirir atynt yn y dangosydd “Eiddo a grëir neu a adnewyddir.”

**Darperir ar eu Cyfer:** Uchafswm y nifer y mae potensial i’w lleoli ar unrhyw un adeg. Nid y nifer y darperir ar eu cyfer yn ystod oes yr eiddo. BACHau: “Mae’r categori mentrau micro, bach a chanolig eu maint (BACHau) yn cynnwys mentrau sy’n cyflogi llai na 250 o unigolion ac y mae eu trosiant blynyddol yn llai na EUR 50 miliwn, a/neu y mae cyfanswm eu cyfriflen flynyddol yn llai na EUR 43 miliwn.”

**Tystiolaeth:** Tystysgrif cwblhau ymarferol a lluniadau yn dangos yr arwynebedd llawr net sydd ar gael yn ofod ar gyfer cyflogaeth gan BACHau. Dylai’r adeilad fod wedi’i gwblhau cyn adrodd nifer y BACHau y darperir ar eu cyfer.


**Manylion o ran Categori / Meini prawf**

**Awdurdod Unedol** Sir Gaerfyrddin

---

## BUDDSODDIAD GAN Y SECTOR PREIFAT

**Buddsoddiad gan y Sector Preifat - diffiniad:** Yn cael ei fesur fesul £, dyma swm **crynswth** y buddsoddiad uniongyrchol diriaethol neu anniriaethol gan y sector preifat neu fmudiadau masnachol, elusennol a dielw ac unigolion preifat. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli cyfraniad y sector preifat i gyfanswm cost y prosiect ar ôl tynnu unrhyw gyllid grant a chyllid sector cyhoeddus.





Cronfa Ddatblygu Adfywio Rhydaman

## Atodiad 3

**Prynu Nwyddau, Gwasanaethau, Ymgynghoriaeth, Ymchwil neu Waith**

Pan fyddant yn prynu rhywbeth neu'n talu am wasanaeth, dylai ymgeiswyr geisio cael gwerth am arian a rhoi cyfle i ystod o fusnesau ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny mewn modd teg a chlr.

Felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu'n unol â gwerth amcangyfrifedig (heb gynnwys TAW) y contract pan gyflwynir y dyfynbris/cyn cyflwyno'r tendr. Mae'n rhaid i'ch penderfyniad ddangos gwerth gorau ac mae'n rhaid ichi gadw cofnodion sy'n cefnogi eich penderfyniad.

Bydd methu â chydymffurfio'n llawn â'r trothwyon caffael yn golygu y bydd y costau'n anghymwys ar gyfer cymorth o dan y gronfa hon.

Rheolau ynghylch caffael Grantiau Trydydd Parti

Rheolau ynghylch caffael Grantiau Trydydd Parti

Gofyniad	Cyfanswm Gwerth (heb gynnwys TAW)	Y Broses Gaffael
Popeth	hyd at £4,999	<p><u>Rhaid</u> cael a chadw o leiaf <b>1 Dyfynbris ysgrifenedig</b></p> <p>Rhaid cael gwerth gorau am yr arian a chymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y nwyddau, y gwaith, neu'r gwasanaethau a gafwyd o safon addas ac wedi eu prynu am bris cystadleuol. At ddibenion archwilio, rhaid cadw cofnod ysgrifenedig yn cefnogi'r penderfyniad.</p>
Popeth	rhwng £5,000 a £24,999	<p><u>Rhaid</u> ceisio o leiaf <b>3 dyfynbris</b> ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar yr un fanyleb a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'.</p> <p>At ddibenion archwilio, rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a wahoddwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p>
Popeth	rhwng £25,000 a £74,999	<p><u>Rhaid</u> ceisio o leiaf <b>3 dyfynbris</b> ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr un fanyleb</li> <li>• yr un meini prawf gwerthuso a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso</li> <li>• yr un dyddiad cau.</li> </ul>

		<p>At ddibenion archwilio, rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a wahoddwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un dyfynbris i law mae'n <b>rhaid</b> cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan CSC, fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un dyfynbris, <u>gallai</u> hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru fod yn ofynnol.</p>
<b>Nwyddau a Gwasanaethau</b>	<b>rhwng £75,000 a £164,176</b>	<p><b>Rhaid</b> ceisio o leiaf <b>4 tendr</b> o ffynonellau cystadleuol*, gydag <b>isafswm o 2 dendr yn dod i law**</b>.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr un fanyleb a'r un gofynion,</li> <li>• amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract</li> <li>• un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny.</li> </ul> <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gydfynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n <b>rhaid</b> cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan CSC, fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gallai</u> fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.</p>
<b>Gwaith</b>	<b>rhwng £75,000 a £4,104,394</b>	<p><b>Rhaid</b> ceisio o leiaf <b>4 tendr</b> o ffynonellau cystadleuol*, gydag <b>isafswm o 3 thendr yn dod i law**</b>.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr un fanyleb a'r un gofynion,</li> <li>• amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract</li> <li>• un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny.</li> </ul> <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gydfynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n</p>

		<p>nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p><b>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n <u>rhaid</u> cysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gallai</u> fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.</b></p> <p><b>Yn achos contractau sy'n werth mwy na £250,000:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wrth ddewis contractwyr ar gyfer y rhestr dendro argymhellir bod y gwiriadau ariannol a diwydrwydd dyladwy priodol yn cael eu cynnal ynghylch y partïon hynny;</li> <li>• Fel gofyniad lleiaf, rhaid cynnal gwiriadau ariannol a diwydrwydd dyladwy ynghylch y contractwr a ffafrir yn dilyn y gwerthusiad a chyn dyfarnu'r contract.</li> </ul>
<b>Nwyddau a Gwasanaethau</b>	<b>Mwy na £164,176</b>	Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau yn debygol o fod yn fwy na £164,176 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.
<b>Gwaith</b>	<b>Mwy na £4,104,394</b>	Os yw contract am Waith yn debygol o fod yn fwy na £4,104,394 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â rheolwr y prosiect i gael gwybod a fydd Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.

### **Canllawiau Pwysig**

Hysbysebu drwy wefan GwerthwchiGymru

\* Mae'n bosibl ichi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, [www.gwerthwchigymru.co.uk](http://www.gwerthwchigymru.co.uk) os yw'n anodd ichi bennu isafswm nifer y cyflenwyr sydd ei angen a/neu os hoffech newid cyflenwyr neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr. Bernir mai hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru yw'r arfer gorau. Fodd bynnag, gallech deimlo y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.

Mae'r cyfleuster hwn ar gael ichi yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan GwerthwchiGymru, sef <http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/> a chysylltu â llinell gymorth y wefan drwy ffonio 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.

### **Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau**

Yn achos gwariant dros £5,000 mae'n hanfodol bod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu ceisio gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sydd

eu hangen. Os yw'n amlwg bod dyfynbrisiau/tendrau anaddas wedi cael eu ceisio, fe all hysbysebu ar wefan gwerthwchigymru fod yn ofynnol.

### **Cyllidwyr Eraill**

Os bydd prosiect yn gysylltiedig ag unrhyw ffrydiau cyllid eraill neu ffrydiau cyllid ychwanegol, mae'n rhaid dilyn y Rheolau Caffael Grantiau Trydydd Parti hyn ar y lleiaf, a hynny ar gyfer cyfanswm gwariant amcangyfrifedig y gofyniad.

### **Osgoi gwrthdaro buddiannau**

Rydym yn sylweddoli ei bod yn bosibl y gallai ymgeiswyr / datblygwyr neu unigolion sy'n gysylltiedig â hwy (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion) ddymuno tendro am contract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd / datblygwr. Mae hynny'n dderbyniol ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a'i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros y llall. Rhaid cymryd camau priodol i atal, nodi ac unioni unrhyw wrthdaro buddiannau.

Os oes gan ymgeisydd/datblygwr neu unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â hwy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fudd ariannol, economaidd neu wleidyddol neu fudd personol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu ei ddiueddrwydd a'i annibyniaeth yng nghyswllt y weithdrefn gaffael:

- rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw unigolyn neu barti arall sydd â budd, ddatgan y cyfrwy fudd yn ysgrifenedig i'r Swyddog Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.
- rhaid i fanylebau a'r meini prawf gwerthuso beidio â bod yn unochrog neu wedi'u teilwra i ffafrio un ateb neu un parti dros y llall.
- ni ddylai'r unigolyn neu barti sydd â budd, gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i arfarnu'r tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y bydd angen i'r ymgeisydd am grant ddarparu cymeradwyaeth derfynol o bosib
- rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.
- Os yw'r contract fel arfer yn destun un weithdrefn dendro, argymhellir y dylai'r noddwr geisio dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr arall (hynny yw, yn dilyn y weithdrefn a nodir uchod am contractau rhwng £5000 a £25,000)

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau tegwch o ran gwario arian cyhoeddus a sicrhau nad yw uniondeb yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract

Os bydd angen unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, mae'n bosibl y bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau y ceir y gwerth gorau am yr arian. Gallai hyn ddigwydd pan fydd ychwanegiadau annisgwyl at y gofyniad gwreiddiol, pan fydd tendrau yn dod i law sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, neu pan fydd lefelau cyllido yn newid ac ati. Rhaid i'r ymgeisydd am grant roi gwybod i'r Swyddog Prosiect a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.

### **IER SYLW:**

- **Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.**
- **Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i'r rheolwr prosiect bob tro.**

- Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â rheolwr y prosiect i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.

### Cynghorion ynghylch Tendro


Pethau i'w gwneud	Pethau i beidio â'u gwneud
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gofawch fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr h.y. cyfyngu'r fanyleb i frand penodol.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• cydymffurfiwch â'r rheolau priodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhewch fod y fanyleb yn fanwlgywir ac heb fod yn fwy na'r gofynion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gofawch fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gofawch lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â rhoi gormod o fanylion ar lafar pan fyddwch yn ateb cwestiynau penodol gan gyflenwyr. Rhaid rhoi'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr i sicrhau bod y broses yn deg.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gofawch fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• gofawch eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• rhowch digon o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhewch fod gwerth y Nwyddau/Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses er mwyn defnyddio'r broses gaffael gywir Rhaid defnyddio'r gwerth cyfunol lle bo'n berthnasol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Peidiwch</b> ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.</li> </ul>

### Diffinio Caffael

Teitl	Disgrifiad
<b>Cyfuno</b>	Cyfuno gwerth y contractau ar wahân ar gyfer yr un cyflenwad, gwasanaeth neu waith.
<b>Contract</b>	Ystyr Contract, at ddibenion y Rheolau hyn, fydd unrhyw gytundeb (boed hwnnw'n ysgrifenedig ai peidio) rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer:-

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau;</li> <li>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau;</li> <li>• cyflawni gwaith</li> <li>• darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau).</li> </ul>
<b>Ffynhonnell Gystadleuol</b>	darparwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall
<b>Nwyddau</b>	eitemau materol h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati
<b>Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd</b>	rheolau a rheoliadau yw'r rhain y mae'n rhaid i sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus eu dilyn wrth gaffael Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau dros drothwy penodol (£164,176 ar gyfer Nwyddau a Gwasanaethau a £4,104,394 ar gyfer contractau Gwaith), a rhaid cynnal Ymarfer Tendro swyddogol yn unol â'r Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus Ewropeaidd.
<b>Gwerthuso</b>	dull o bennu pa gynnig yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw
<b>Meini Prawf Gwerthuso</b>	Rhestr o'r gofynion allweddol a dynnwyd o'r fanyleb a fydd yn galluogi'r cyflenwyr i esbonio sut y maent yn bwriadu darparu'r gofynion a gaiff eu gwerthuso. Mae'r meini prawf y pennir y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd arnynt yn seiliedig ar gyfuniad o bris/cost ac ansawdd.
<b>Panel Gwerthuso</b>	Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Fe all fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso. Dylai'r Panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarferiad caffael
<b>OJEU (Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd)</b>	cyfnodolyn yw hwn lle mae'n rhaid cyhoeddi holl gontractau'r sector cyhoeddus sy'n werth mwy na throthwy penodol (£164,176 ar hyn o bryd am Nwyddau a Gwasanaethau a £4,104,394 am gontractau Gwaith)
<b>GwerthwchiGymru</b>	Gwefan Gaffael Genedlaethol yw hon lle caiff holl gontractau'r sector cyhoeddus eu hysbysebu. Hefyd gall rhai sy'n derbyn Grantiau Trydydd Parti hysbysebu ar y wefan yn rhad ac am ddim. Ewch i wefan GwerthiwchiGymru <a href="http://www.sell2wales.gov.uk/">http://www.sell2wales.gov.uk/</a> a chysylltu â llinell gymorth y wefan drwy ffonio 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.
<b>Gwasanaethau</b>	tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati.
<b>Y fanyleb</b>	datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n diffinio gofynion yr Awdurdod. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu'r gwasanaeth dan sylw. Ar gyfer cynnyrch syml, gall y fanyleb fod yn ddim mwy na disgrifiad cryno ond yn achos gofyniad cymhleth bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Rhaid i'r disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'n gwasanaethau sydd eu hangen beidio â chyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol.
<b>Tendr/Dyfyndbris</b>	y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i dendro. Mae'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol sy'n dangos gallu a chymhwysedd y cyflenwr, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni'r gofynion o ran y fanyleb.
<b>Gwaith</b>	gan gynnwys tirweddu, adeiladu, gwaith adeiladu ac ati

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â'r Swyddog CDE i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.



## **Cronfa Ddatblygu Adfywio Rhydaman**

### **Atodiad 4**

#### **Gofynion Cyhoeddusrwydd**

Os dyfernir arian i brosiect neilltuol rhaid i'r datblygwr / ymgeisydd sicrhau y rhoddir cydnabyddiaeth i'r holl gyrff a restrir isod:-

- Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae'r Canllaw yn nodi sut y gall datblygwyr / ymgeiswyr fodloni'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd ar bob cyfle priodol (e.e. defnyddio logos ar bapur ysgrifennu, taflenni a gwefannau, ac ati) ac â phwy y dylid cysylltu i gael rhagor o wybodaeth a chynghor, a chaniatâd pan fo hynny'n berthnasol (e.e. maint y logo).

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu byrddau arwyddion ar gyfer y cyfnod adeiladu yn rhoi gwybodaeth am y cyllid a phlaciau ar gyfer eu harddangos wedi cwblhau'r gwaith.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i gynhyrchu datganiadau i'r wasg ar adegau penodol o'r prosiect, er enghraifft wedi derbyn cymeradwyaeth neu ar ôl dechrau'r cynllun ac ar ôl ei gwblhau.

Os dymunant gael rhagor o arweiniad, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â swyddogion.

